

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Edmund Rees

Nos Lun Chwefror 4ydd 2019 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gerallt Jones, Paul Weston.
2. **Presennol:** Cyng. Dewi Evans, Gari Jones, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Cyng. Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Bu i Gari B Jones ddatgan diddordeb yn eitem rhif 8.2. yr Agenda..
4. **Cofnodion mis Ionawr:** cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Dewi Evans gyda Gari Jones yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. Byddwn yn ail drefnu'r 'Audit Walk' ym mis Ebrill.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1 Bydd 2 sesiwn o Chwarae Allan yn cael ei drefnu ar gyfer gwyliau'r haf
7. **Monitro'r Gyllideb:**

Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Cyfrifo ac Archwilio:**

Archwiliwyd cysyniadau banc a chafwyd popeth mewn trefn.
9. **Talu Anfonebau:**
 - 9.1. BDO- cynigiodd Dewi Evans gyda Gwynfor Roberts yn eilio talu'r anfoneb o **£326.10** gyda siec rhif **100302**. S150
 - 9.2. CBSC – cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Gari Jones yn eilio talu'r anfoneb am y sgip o £185.00 + TAW £37.00 = **£222.00** gyda siec rhif **100301**. S144
10. **Ceisiadau Cynllunio:**
 - 10.1. Cyfeirnod: 0/45861
Ymgeisydd: Mrs Meryl Welsby.
Cynllun: Estyniad i Gartre 'r Henoed.
Safle: Cartref Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas.
Cefnogwyd y Cais yn unfrydol.
 - 10.2. Safle: Fron Bella, Pentrefoelas
Ymgeisydd: G B Jones
Cynllun: 'Publicity and Consultation before applying for Planning Permission Notice' - Codi estyniad i'r sied ieir hefyd silos.
Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r Cais.
11. **Un Llais Cymru:**

Cafwyd adroddiad o bwyllgor Un Llais Cymru gan Edmund Rees
Eirianfa, Dinbych 16/01/19
1) *Cyflwyniad gan Judith Greenhaigh, Prif weithredwr Cyngor Sir Ddinbych ar heriau i lywodraeth oherwydd yr economaidd, newidiadau demograffig a Brexit.*
2) *Datblygiadau eraill; sôn bydd rhaid i Gyngorau Cymuned a Thref gyflwyno adroddiad blynyddol a hyfforddiant yn debyg o ddod yn orfodol.*
Dal pwyslais ar drosglwyddo assets a gwasanaethau o'r Cyngor Sir i'r Cyngor Cymuned.
Cwynion am BDO yn gyffredin iawn. Un Llais Cymru am fynd a'r mater ymlaen.
12. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:** Cafwyd gair gan y Cyng. Sirol ac ymfalchiodd yn y ffaith fod y gwaith o osod arwyddion a chamerau cyflymdra ar yr 'EVO Triangl' wedi cychwyn.
13. **Unrhyw fater arall:**
 - 13.1. Cyflog y Clerc –
Wedi cael y manylion am y codiad cyflog cenedlaethol ar gyfer Ebrill 2019 gan y Cadeirydd, cynigiodd Gwynfor Roberts efo Gari Jones yn eilio, fod cyflog y cleric yn codi i £160.00 y mis.
14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf Mawrth 4ydd 2019 am 7.30 y.h**

Arwyddwyd E Rees
Cadeirydd

Dyddiad 01.04.19

